OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2010 Rhif 1361 (Cy.116)

Y CYFRIFIAD, CYMRU

Rheoliadau'r Cyfrifiad (Cymru) 2010

Gwnaed	*24 Ebrill 2010*
Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru	*28 Ebrill 2010*
Yn dod i rym	*16 Mehefin 2010*

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

2010 No. 1361 (W.116)

CENSUS, WALES

The Census (Wales) Regulations 2010

Made	*24 April 2010*
Laid before the National Assembly for Wales	*28 April 2010*
Coming into force	*16 June 2010*

£28.50

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2010 Rhif 1361 (Cy.116)

Y CYFRIFIAD, CYMRU

Rheoliadau'r Cyfrifiad (Cymru) 2010

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae'r Rheoliadau hyn yn nodi'r trefniadau manwl sy'n angenrheidiol er mwyn cynnal yng Nghymru y cyfrifiad y cyfarwyddwyd ei gynnal ar 27 Mawrth 2011 gan Orchymyn y Cyfrifiad (Cymru a Lloegr) 2009 ("Gorchymyn y Cyfrifiad"). Maent hefyd yn diddymu darpariaethau Rheoliadau'r Cyfrifiad 2000 (O.S. 2000/1473) a Rheoliadau'r Cyfrifiad (Diwygio) 2000 (O.S. 2000/3351) i'r graddau y maent yn gymwys o ran Cymru.

Mae rheoliad 4 yn darparu ar gyfer rhannu Cymru'n ardaloedd cyfrifiad, ardaloedd cydgysylltwyr a dosbarthau cyfrifo. Mae'n darparu hefyd ar gyfer penodi personau i gyflawni'r dyletswyddau a ddyrennir iddynt o dan y Rheoliadau hyn.

Mae rheoliad 5 yn darparu y bydd person y mae Gorchymyn y Cyfrifiad yn ei gwneud yn ofynnol iddo lenwi ffurflen yn y cyfrifiad yn cyflawni ei gyfrifoldeb pan fydd yr holiadur perthnasol (sydd ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg), a bennir yn Atodlen 1 ac sydd wedi'i nodi'n llawn yn Atodlenni 2 i 4 i'r Rheoliadau hyn, wedi dod i law Awdurdod Ystadegau'r Deyrnas Unedig ("yr Awdurdod"). Mae rheoliadau 6 i 12 yn darparu trefniadau manwl ar gyfer dosbarthu'r holiaduron, eu llenwi a'u dychwelyd.

Mae rheoliad 13 yn darparu ar gyfer camau dilynol i'w cymryd os na fydd holiadur a anfonwyd neu a ddosbarthwyd yn unol â'r Rheoliadau hyn yn cael ei ddychwelyd neu os bydd yn cael ei ddychwelyd yn anghyflawn.

Mae rheoliadau 14 a 15 yn gwneud darpariaeth sy'n ei gwneud yn ofynnol i wybodaeth gael ei rhoi i berson rhagnodedig neu swyddog cyfrifiad. Maen nhw'n gwneud darpariaeth hefyd i atal gwybodaeth a sicrheir

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

2010 No. 1361 (W.116)

CENSUS, WALES

The Census (Wales) Regulations 2010

EXPLANATORY NOTE

(This note is not part of the Regulations)

These Regulations set out the detailed arrangements necessary for the conduct in Wales of the census directed to be taken on the 27 March 2011 by the Census (England and Wales) Order 2009 ("the Census Order"). It also revokes the provisions of the Census Regulations 2000 (S.I. 2000/1473) and the Census (Amendment) Regulations 2000 (S.I. 2000/3351) so far as they apply in relation Wales.

Regulation 4 provides for the division of Wales into census areas, co-ordinator areas and enumeration districts. It also provides for the appointment of persons to carry out the duties assigned to them under these Regulations.

Regulation 5 provides that a person required by the Census Order to make a return at the census will discharge their responsibility when the relevant questionnaire (available in English and Welsh), specified in Schedule 1 and which are set out in full in Schedules 2 to 4 to these Regulations, has been received by the UK Statistics Authority ("the Authority"). Regulations 6 to 12 provide detailed arrangements for the delivery, completion and return of the questionnaires.

Regulation 13 provides for follow-up action to be taken in the event that a questionnaire sent or delivered in accordance with these Regulations is not returned or is returned incomplete.

Regulations 14 and 15 make provision requiring information to be given to a prescribed person or a census officer. They also make provision to prevent the unauthorised use, publication and communication of

at ddibenion y cyfrifiad rhag cael ei defnyddio, ei chyhoeddi a'i mynegi heb awdurdod ac i sicrhau bod ffurflenni a dogfennau'n cael eu cadw'n ddiogel.

Mae rheoliad 16 yn darparu ar gyfer rhoi naill ai datganiad statudol neu ymrwymiad ynglŷn â chyfrinachedd gwybodaeth a sicrheir o ganlyniad i'r cyfrifiad gan bersonau a fydd yn cael gweld yr wybodaeth honno.

Mae asesiad effaith rheoleiddiol llawn o'r effaith a gaiff yr offeryn hwn ar gostau busnesau, llywodraeth leol a'r sector gwirfoddol wedi'i atodi i'r memorandwm esboniadol.

information obtained for the purpose of the census and to ensure the safe custody of forms and documents.

Regulation 16 provides for the giving of either a statutory declaration or an undertaking concerning the confidentiality of information obtained as a result of the census by persons who will have access to that information.

A full regulatory impact assessment of the effect that this instrument will have on the costs of business, local government and the voluntary sector is annexed to the explanatory memorandum.

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2010 Rhif 1361 (Cy.116)

Y CYFRIFIAD, CYMRU

Rheoliadau'r Cyfrifiad (Cymru) 2010

Gwnaed	*24 Ebrill 2010*
Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru	*28 Ebrill 2010*
Yn dod i rym	*16 Mehefin 2010*

Mae Gweinidogion Cymru, ar ôl ymgynghori â'r Bwrdd Ystadegau yn unol ag adran 3(1A) o Ddeddf y Cyfrifiad 1920, yn gwneud y Rheoliadau canlynol drwy arfer y pwerau a roddir gan adran 3(1) o'r Ddeddf honno(**1**) ac sydd bellach wedi'u breinio ynddynt hwy:

Enw, cymhwyso a chychwyn

1.–(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau'r Cyfrifiad (Cymru) 2010.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys yng Nghymru a deuant i rym ar 16 Mehefin 2010.

Diddymu

2. Mae Rheoliadau'r Cyfrifiad 2000(**2**) a Rheoliadau'r Cyfrifiad (Diwygio) 2000(**3**) wedi'u diddymu.

Dehongli

3.–(1) Yn y Rheoliadau hyn–

ystyr "amlen ffurflen unigol" ("*individual return envelope*") yw amlen y caniateir selio holiadur I2

(**1**) 1920 p.41. Cafodd adran 3(1) o Ddeddf 1920 ei diwygio a chafodd adran 3(1A) ei mewnosod gan Atodlen 1 i Ddeddf y Gwasanaeth Ystadegau a Chofrestru 2007 (p.18).

(**2**) O.S. 2000/1473.

(**3**) O.S. 2000/3351.

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

2010 No. 1361 (W.116)

CENSUS, WALES

The Census (Wales) Regulations 2010

Made	*24 April 2010*
Laid before the National Assembly for Wales	*28 April 2010*
Coming into force	*16 June 2010*

The Welsh Ministers, having consulted the Statistics Board in accordance with section 3(1A) of the Census Act 1920, make the following Regulations in exercise of powers conferred by section 3(1) of that Act(**1**) and now vested in them:

Title, application and commencement

1.-(1) The title of these Regulations is the Census (Wales) Regulations 2010.

(2) These Regulations apply in Wales and come into force on the 16 June 2010.

Revocations

2. The Census Regulations 2000(**2**) and the Census (Amendment) Regulations 2000(**3**) are revoked.

Interpretation

3.–(1) In these Regulations–

"the 1920 Act" ("*Deddf 1920*") means the Census Act 1920;

(**1**) 1920 c.41. Section 3(1) of the 1920 Act was amended and section 3(1A) was inserted, by Schedule 1 to the Statistics and Registration Service Act 2007 (c.18).

(**2**) S.I. 2000/1473.

(**3**) S.I. 2000/3351.

neu I2W ynddi ar ôl ei llenwi;

ystyr "amlen wedi'i thalu ymlaen llaw" ("*reply-paid envelope*") yw amlen sydd wedi'i chyfeirio ymlaen llaw ac nad oes angen i'r anfonwr dalu i'w hanfon;

ystyr "ardal cydgysylltydd" ("*co-ordinator area*") yw ardal a grëir o dan reoliad 4(1)(b);

ystyr "yr Awdurdod" ("*the Authority*") yw'r Bwrdd Ystadegau a sefydlwyd gan adran 1 o Ddeddf 2007;

ystyr "cydgysylltydd cyfrifiad" ("*census co-ordinator*") yw person a benodir o dan reoliad 4(1)(b);

ystyr "y cyfrifiad" ("*the census*") yw'r cyfrifiad y mae Gorchymyn y Cyfrifiad yn cyfarwyddo ei gynnal;

ystyr "Deddf 1920" ("*the 1920 Act*") yw Deddf y Cyfrifiad 1920;

ystyr "Deddf 2007" ("*the 2007 Act*") yw Deddf y Gwasanaeth Ystadegau a Chofrestru 2007(**1**);

ystyr "dosbarth cyfrifo" ("*enumeration district*") yw dosbarth a grëir o dan reoliad 4(1)(c);

ystyr "etholwr" ("*elector*") yw person sy'n ethol llenwi ffurflen unigol yn unol â rheoliad 5(4);

ystyr "y gofrestr cyfeiriadau" ("*the address register*") yw'r gofrestr, a baratoir gan yr Awdurdod, sy'n cynnwys cyfeiriad pob aelwyd a phob sefydliad cymunedol yng Nghymru y mae'n ymwybodol ohonynt;

ystyr "Gorchymyn y Cyfrifiad" ("*the Census Order*") yw Gorchymyn y Cyfrifiad (Cymru a Lloegr) 2009(**2**);

mae i "gwybodaeth bersonol" yr ystyr a roddir i "*personal information*" gan adran 39(2) o Ddeddf 2007;

ystyr "nodau adnabod holiadur" ("*questionnaire identification marks*") yw cod bar sy'n unigryw i bob holiadur penodol a rhif cyfeirnod cyfatebol y mae'r cod bar yn ei gynrychioli;

ystyr "pecyn aelwyd" ("*household pack*") yw pecyn sy'n cynnwys yr eitemau a bennir yn rheoliad 6(5);

ystyr "pecyn sefydliad cymunedol" ("*communal establishment pack*") yw pecyn sy'n cynnwys yr eitemau a bennir yn rheoliad 6(6);

ystyr "pecyn unigol rheolaidd" ("*regular individual pack*") yw pecyn sy'n cynnwys yr eitemau a bennir yn rheoliad 6(3);

"the 2007 Act" ("*Deddf 2007*") means the Statistics and Registration Service Act 2007(**1**);

"the address register" ("*y gofrestr cyfeiriadau*") means the register, prepared by the Authority, which contains the address of each household and communal establishment in Wales of which it is aware;

"appointee" ("*penodai*") means any person appointed under regulation 4 or appointed before the coming into force of these Regulations for the purposes of taking the census;

"the Authority" ("*yr Awdurdod*") means the Statistics Board established by section 1 of the 2007 Act;

"the census" ("*y cyfrifiad*") means the census directed to be taken by the Census Order;

"census co-ordinator" ("*cydgysylltydd cyfrifiad*") means a person appointed under regulation 4(1)(b);

"census officer" ("*swyddog cyfrifiad*") means an officer appointed under regulation 4(1)(c);

"the Census Order" ("*Gorchymyn y Cyfrifiad*") means the Census (England and Wales) Order 2009(**2**);

"communal establishment" ("*sefydliad cymunedol*") means any establishment specified in Groups B to F of column 1 of Schedule 1 to the Census Order;

"communal establishment pack" ("*pecyn sefydliad cymunedol*") means a pack containing the items specified in regulation 6(6);

"co-ordinator area" ("*ardal cydgysylltydd*") means an area created under regulation 4(1)(b);

"elector" ("*etholwr*") means a person who elects to make an individual return in accordance with regulation 5(4);

"enumeration district" ("*dosbarth cyfrifo*") means a district created under regulation 4(1)(c);

"household pack" ("*pecyn aelwyd*") means a pack containing the items specified in regulation 6(5);

"individual return envelope" ("*amlen ffurflen unigol*") means an envelope in which a completed questionnaire I2 or I2W may be sealed;

"personal information" ("*gwybodaeth bersonol*") has the meaning given to that term by section 39(2) of the 2007 Act;

"prescribed person" ("*person rhagnodedig*") means a person required by the Census Order to make a

(**1**) 2007 p. 18.

(**2**) O.S. 2009/3210.

(**1**) 2007 c. 18.

(**2**) S.I. 2009/3210.

ystyr "pecyn unigol wedi'i dalu ymlaen llaw" ("*reply-paid individual pack*") yw pecyn sy'n cynnwys yr eitemau a bennir yn rheoliad 6(4);

ystyr "penodai" ("*appointee*") yw unrhyw berson a benodir o dan reoliad 4 neu a benodir cyn i'r Rheoliadau hyn ddod i rym at ddibenion cynnal y cyfrifiad;

ystyr "person rhagnodedig" ("*prescribed person*") yw person y mae Gorchymyn y Cyfrifiad yn ei gwneud yn ofynnol iddo lenwi ffurflen neu unrhyw berson sy'n llenwi ffurflen ar ran person o'r fath yn unol â Gorchymyn y Cyfrifiad;

ystyr "sefydliad cymunedol" ("*communal establishment*") yw unrhyw sefydliad a bennir yng Ngrwpiau B i F yng ngholofn 1 o Atodlen 1 i Orchymyn y Cyfrifiad;

ystyr "swyddog cyfrifiad" ("*census officer*") yw swyddog a benodir o dan reoliad 4(1)(c); ac

ystyr "y system olrhain holiaduron" ("*the questionnaire tracking system*") yw unrhyw system electronig a ddarperir gan yr Awdurdod o dan reoliad 5(7).

(2) Mae i dermau y mae eu ffurfiau Saesneg wedi'u diffinio yng Ngorchymyn y Cyfrifiad yr un ystyr yn y Rheoliadau hyn.

(3) Yn fersiwn Cymraeg y Rheoliadau hyn–

(a) y gair Cymraeg sy'n cyfateb i "household" yw "aelwyd"; a

(b) y geiriau Cymraeg sy'n cyfateb i "householder" yw "deiliad aelwyd".

(4) Yn fersiynau Cymraeg yr holiaduron–

(a) y geiriau Cymraeg sy'n cyfateb i "household" yw "cartref" ac "aelodau o'r cartref" (yn ôl fel y digwydd); a

(b) y geiriau Cymraeg sy'n cyfateb i "householder" yw "deiliad cartref".

(5) Yn y Rheoliadau hyn, mae unrhyw gyfeiriad at hysbysiad, holiadur neu wybodaeth arall yn dod i law'r Awdurdod yn cyfeirio at yr hysbysiad, yr holiadur neu'r wybodaeth yn dod i law swyddog cyfrifiad yn bersonol, neu'n dod i law'r Awdurdod neu unrhyw benodai drwy'r post neu'n electronig.

(6) Yn y Rheoliadau hyn mae cyfeiriad at holiadur lle y mae'n cael ei ddilyn yn union gan lythyren adnabod yn gyfeiriad at yr holiadur sy'n cael ei adnabod â'r llythyren honno ac y cyfeirir ato yn y tabl yn Atodlen 1 ac sydd wedi'i nodi yn unrhyw rai o Atodlenni 2 i 4 neu holiadur i'r un perwyl.

(7) Ni fydd person rhagnodedig yn torri'r Rheoliadau hyn dim ond am ei fod wedi dychwelyd fersiwn Saesneg holiadur gan ddarparu rhywfaint o'r

return or any person making a return on behalf of such a person in accordance with the Census Order;

"questionnaire identification marks" ("*nodau adnabod holiadur*") means a barcode which is unique to each particular questionnaire and a corresponding reference number which the barcode represents;

"the questionnaire tracking system" ("*y system olrhain holidaduron*") means such an electronic system as the Authority may provide under regulation 5(7);

"regular individual pack" ("*pecyn unigol rheolaidd*") means a pack containing the items specified in regulation 6(3);

"reply-paid envelope" ("*amlen wedi`i thalu ymlaen llaw*") means an envelope which is pre-addressed and which does not require payment by the sender; and

"reply-paid individual pack" ("*pecyn unigol wedi`i dalu ymlaen llaw*") means a pack containing the items specified in regulation 6(4).

(2) Terms defined in the Census Order have the same meaning in these Regulations.

(3) In the Welsh language version of these Regulations–

(a) the Welsh equivalent of "household" is "aelwyd"; and

(b) the Welsh equivalent of "householder" is "deiliad aelwyd".

(4) In the Welsh language versions of the questionnaires–

(a) the Welsh equivalent of "household" is "cartref" and "aelodau o`r cartref" (as the case may be); and

(b) the Welsh equivalent of "householder" is "deiliad cartref".

(5) In these Regulations, any reference to a notice, questionnaire or other information being received by the Authority refers to it being received in person by a census officer, through the post or electronically by the Authority or any appointee.

(6) In these Regulations a reference to a questionnaire where it is followed immediately by an identifying letter is a reference to the questionnaire which is identified by that letter and which is referred to in the table in Schedule 1 and set out in any of Schedules 2 to 4 or a questionnaire to the like effect.

(7) A prescribed person will not be in breach of these Regulations only by virtue of returning the English language version of a questionnaire providing some of

wybodaeth y mae'r holiadur yn hwnnw'n gofyn amdani a fersiwn Cymraeg yr holiadur hwnnw gan ddarparu gweddill yr wybodaeth honno.

Rhaniadau gweinyddol a phenodiadau

4.–(1) At ddibenion y cyfrifiad, rhaid i'r Awdurdod–

(a) rhannu Cymru'n ardaloedd cyfrifiad a phenodi rheolwr ardal i bob ardal gyfrifiad;

(b) rhannu pob ardal gyfrifiad yn ardaloedd cydgysylltwyr a phenodi cydgysylltydd cyfrifiad i bob ardal cydgysylltydd; ac

(c) rhannu pob ardal cydgysylltydd yn ddosbarthau cyfrifo a phenodi cynifer o swyddogion cyfrifiad y mae'n credu bod eu hangen er mwyn cynnal y cyfrifiad yn y dosbarthau hynny, yn unol â Deddf 1920 a'r Rheoliadau hyn.

(2) Caiff yr Awdurdod hefyd benodi cynifer o bersonau eraill y mae'n credu bod eu hangen i gynnal y cyfrifiad.

(3) Rhaid i'r personau a benodir o dan y rheoliad hwn gyflawni'r dyletswyddau a ddyrennir iddynt o dan Ddeddf 1920 a'r Rheoliadau hyn a rhaid iddynt gydymffurfio ag unrhyw gyfarwyddiadau a ddyroddir yn unol â'r Rheoliadau hyn.

Holiaduron

5.–(1) Dim ond pan fydd holiadur sydd wedi'i lenwi yn dod i law'r Awdurdod y bydd dyletswydd person rhagnodedig i lenwi ffurflen, sydd wedi'i nodi yng Ngorchymyn y Cyfrifiad, wedi'i chyflawni.

(2) Yr holiadur sydd i'w lenwi gan berson rhagnodedig a grybwyllir yng ngholofn (1) o'r tabl yn Atodlen 1 yw'r holiadur ac iddo'r teitl a bennir yn y cofnod cyfatebol yng ngholofn (2) (fersiwn Saesneg) neu golofn (3) (fersiwn Cymraeg) o'r tabl hwnnw ac sydd wedi'i nodi o dan y teitl hwnnw yn Atodlenni 2 i 4.

(3) Rhaid i bob person rhagnodedig gydymffurfio â'r cyfarwyddiadau a gynhwysir yn yr holiadur sydd i'w lenwi ganddo gan ddarparu unrhyw wybodaeth y gofynnir amdani yn yr holiadur ac y mae'n ofynnol iddo ei darparu o dan Orchymyn y Cyfrifiad.

(4) Caiff person sy'n bodloni'r amodau sydd wedi'u rhagnodi yn erthygl 5(5) o Orchymyn y Cyfrifiad ac sydd, drwy roi hysbysiad sy'n dod i law'r Awdurdod, yn ethol llenwi ffurflen unigol, lenwi'r ffurflen honno ar holiadur I2 neu holiadur I2W.

(5) Rhaid i bob etholwr sy'n llenwi holiadur I2 neu holiadur I2W (yn ôl fel y digwydd) gydymffurfio â'r cyfarwyddiadau a gynhwysir yn holiadur I2 neu holiadur I2W (yn ôl fel y digwydd) gan ddarparu'r holl wybodaeth y gofynnir amdani yn yr holiadur hwnnw.

the information required by that questionnaire and the Welsh language version of that questionnaire providing the remainder of that information.

Administrative divisions and appointments

4.–(1) For the purposes of the census, the Authority must–

(a) divide Wales into census areas and appoint an area manager for each;

(b) divide each census area into co-ordinator areas and appoint a census co-ordinator for each; and

(c) divide each co-ordinator area into enumeration districts and appoint as many census officers as it considers necessary for the purpose of carrying out the census in those districts, in accordance with the 1920 Act and these Regulations.

(2) The Authority may also appoint as many other persons as it considers necessary for the taking of the census.

(3) The persons appointed under this regulation must perform the duties assigned to them under the 1920 Act and these Regulations and must comply with any instructions issued in accordance with these Regulations.

Questionnaires

5.–(1) The duty of a prescribed person to make a return, set out in the Census Order, will only be discharged when a completed questionnaire has been received by the Authority.

(2) The questionnaire to be returned by a prescribed person mentioned in column (1) of the table in Schedule 1 must be the questionnaire that has the title specified in the corresponding entry in column (2) (English language version) or column (3) (Welsh language version) of that table and is set out under that title in Schedules 2 to 4.

(3) Each prescribed person must comply with the instructions contained in the questionnaire to be returned by them and provide such information as is requested in the questionnaire and which they are required to provide by the Census Order.

(4) A person who satisfies the conditions prescribed in article 5(5) of the Census Order and who elects, by giving notice which is received by the Authority, to complete an individual return may make that return on questionnaire I2 or questionnaire I2W.

(5) Each elector who returns questionnaire I2 or questionnaire I2W (as the case may be) must comply with the instructions contained in questionnaire I2 or questionnaire I2W (as the case may be) and provide all such information as is requested in that questionnaire.

(6) Rhaid i bob holiadur fod â'r nodau adnabod holiadur wedi'u hargraffu arno ac yn achos pob un o holiaduron H2, H2W, I2, ac I2W rhaid hefyd iddynt fod â chod mynediad rhyngrwyd wedi'i argraffu arno sy'n unigryw i bob holiadur penodol ac a ddefnyddir os bydd y person rhagnodedig yn llenwi'r wybodaeth y gofynnir amdani yn yr holiadur yn electronig.

(7) Caiff yr Awdurdod ddarparu system electronig i gadw cofnod o'r canlynol–

(a) nodau adnabod holiadur pob holiadur;

(b) cod mynediad rhyngrwyd pob holiadur H2, H2W, I2, ac I2W;

(c) yr aelwyd neu'r sefydliad cymunedol y mae pob holiadur wedi'i anfon neu wedi'i ddosbarthu iddynt yn unol â'r Rheoliadau hyn;

(ch) amgylchiadau dosbarthu pob pecyn unigol rheolaidd, pob pecyn unigol wedi'i dalu ymlaen llaw, pob pecyn aelwyd a phob pecyn sefydliad cymunedol a ddosbarthwyd gan swyddog cyfrifiad;

(d) y dyddiad y daeth pob holiadur a ddaeth i law'r Awdurdod i law a thrwy ba fodd y daeth i law;

(dd) y dyddiad y cafodd unrhyw gofnod ei wneud yn unol â rheoliad 10(6) neu 13(7) a'r person rhagnodedig y cafodd ei wneud mewn perthynas ag ef; ac

(e) unrhyw wybodaeth arall y mae'r Awdurdod yn credu y gallai helpu i gynnal y cyfrifiad.

(6) Every questionnaire must have the questionnaire identification marks printed on it and in the case of each questionnaire H2, H2W, I2, and I2W must also have an internet access code printed on it which is unique to each particular questionnaire and will be used if the prescribed person returns the information requested in the questionnaire electronically.

(7) The Authority may provide an electronic system for keeping records of–

(a) the questionnaire identification marks for each questionnaire;

(b) the internet access code for each questionnaire H2, H2W, I2, and I2W;

(c) the household or communal establishment to which each questionnaire has been sent or delivered in accordance with these Regulations;

(d) the circumstances of the delivery of each regular individual, reply-paid individual, household and communal establishment pack delivered by a census officer;

(e) the date on which each questionnaire received by the Authority was received and the means by which it was received;

(f) the date on which any record is made in accordance with regulation 10(6) or 13(7) and the prescribed person with respect to whom it was made; and

(g) any other information which the Authority considers may assist with the conduct of the census.

Paratoi pecynnau

6.–(1) Rhaid i'r Awdurdod baratoi unrhyw becynnau unigol rheolaidd, pecynnau unigol wedi'u talu ymlaen llaw, pecynnau aelwyd a phecynnau sefydliad cymunedol yn unol â'r rheoliad hwn y mae'n credu bod eu hangen at ddibenion y cyfrifiad.

(2) Rhaid i gynnwys pob pecyn a baratoir yn unol â'r rheoliad hwn gael ei gynnwys mewn amlen o dan sêl ("amlen ddosbarthu"), ("*delivery envelope*") y gall unrhyw gyfeiriad sydd wedi'i argraffu ar yr holiadur gael ei weld drwyddi.

(3) Rhaid i amlen ddosbarthu pecyn unigol rheolaidd gynnwys–

(a) copi o holiadur I2;

(b) copi o holiadur I2W;

(c) unrhyw wybodaeth ychwanegol y mae'r Awdurdod yn credu y gallai helpu i lenwi a dychwelyd holiadur I2 ac i lenwi a dychwelyd holiadur I2W; ac

(ch) amlen ffurflen unigol.

(4) Rhaid i amlen ddosbarthu pecyn unigol wedi'i dalu ymlaen llaw gynnwys–

Preparation of packs

6.–(1) The Authority must prepare such regular individual, reply-paid individual, household and communal establishment packs in accordance with this regulation as it considers necessary for the purpose of the census.

(2) The contents of each pack prepared in accordance with this regulation must be contained in a sealed envelope ("delivery envelope"), ("*amlen ddosbarthu*") through which any address printed on the questionnaire can be seen.

(3) The delivery envelope for a regular individual pack must contain–

(a) a copy of questionnaire I2;

(b) a copy of questionnaire I2W;

(c) such additional information as the Authority considers may assist with the completion and return of questionnaire I2 and the completion and return of questionnaire I2W; and

(d) an individual return envelope.

(4) The delivery envelope for a reply-paid individual pack must contain–

(a) copi o holiadur I2;

(b) copi o holiadur I2W;

(c) unrhyw wybodaeth ychwanegol y mae'r Awdurdod yn credu y gallai helpu i lenwi a dychwelyd holiadur I2 ac i lenwi a dychwelyd holiadur I2W; ac

(ch) amlen wedi'i thalu ymlaen llaw.

(5) Rhaid i amlen ddosbarthu pecyn aelwyd gynnwys–

(a) copi o holiadur H2;

(b) copi o holiadur H2W;

(c) unrhyw wybodaeth ychwanegol y mae'r Awdurdod yn credu y gallai helpu i lenwi a dychwelyd holiadur H2 ac i lenwi a dychwelyd holiadur H2W; ac

(ch) amlen wedi'i thalu ymlaen llaw.

(6) Rhaid i amlen ddosbarthu pecyn sefydliad cymunedol gynnwys–

(a) copi o holiadur CE1;

(b) copi o holiadur CE2W; ac

(c) unrhyw wybodaeth ychwanegol y mae'r Awdurdod yn credu y gallai helpu i lenwi a dychwelyd holiadur CE1 ac i lenwi a dychwelyd holiadur CE2W.

Anfon pecynnau at aelwydydd ac etholwyr drwy'r post

7.–(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (2), rhaid i'r Awdurdod anfon pecyn aelwyd i bob aelwyd yn y gofrestr cyfeiriadau drwy'r post cyn diwrnod y cyfrifiad.

(2) Caiff yr Awdurdod ddewis peidio ag anfon pecyn aelwyd drwy'r post, gan baratoi yn hytrach i'r cydgysylltydd cyfrifiad perthnasol drefnu dosbarthu'r pecyn hwnnw yn unol â rheoliad 8.

(3) Caiff yr Awdurdod anfon pecyn unigol wedi'i dalu ymlaen llaw at unrhyw etholwr mewn cyfeiriad yn y gofrestr cyfeiriadau drwy'r post.

(4) Mewn perthynas â phob pecyn a anfonir yn unol â pharagraff (1) neu (3), rhaid i'r Awdurdod sicrhau bod cofnod yn cael ei wneud yn y system olrhain holiaduron i ddangos bod y pecyn aelwyd penodol neu'r pecyn unigol wedi'i dalu ymlaen llaw penodol wedi'i anfon ac i ba gyfeiriad y mae wedi'i anfon.

Dosbarthu pecynnau i aelwydydd ac etholwyr â llaw

8.–(1) Rhaid i'r Awdurdod ddyroddi i bob cydgysylltydd cyfrifiad–

(a) unrhyw becynnau aelwyd a phecynnau unigol wedi'u talu ymlaen llaw y mae'n credu bod eu hangen at ddibenion y cyfrifiad;

(b) rhestr sy'n cynnwys cyfeiriadau pob aelwyd yn

(a) a copy of questionnaire I2;

(b) a copy of questionnaire I2W;

(c) such additional information as the Authority considers may assist with the completion and return of questionnaire I2 and the completion and return of questionnaire I2W; and

(d) a reply-paid envelope.

(5) The delivery envelope for a household pack must contain–

(a) a copy of questionnaire H2;

(b) a copy of questionnaire H2W;

(c) such additional information as the Authority considers may assist with the completion and return of questionnaire H2 and the completion and return of questionnaire H2W; and

(d) a reply-paid envelope.

(6) The delivery envelope for a communal establishment pack must contain–

(a) a copy of questionnaire CE1;

(b) a copy of questionnaire CE2W; and

(c) such additional information as the Authority considers may assist with the completion and return of questionnaire CE1 and the completion and return of questionnaire CE2W.

Sending packs to households and electors by post

7.–(1) Subject to paragraph (2), the Authority must send a household pack to each household in the address register by post in advance of census day.

(2) The Authority may choose not to send a household pack by post, but instead to prepare for the relevant census co-ordinator to arrange delivery of that pack in accordance with regulation 8.

(3) The Authority may send a reply-paid individual pack to any elector at an address in the address register by post.

(4) In respect of each pack sent in accordance with paragraph (1) or (3), the Authority must ensure that a record is made in the questionnaire tracking system to show that the particular household or reply-paid individual pack has been sent and the address to which it has been sent.

Delivery of packs to households and electors by hand

8.–(1) The Authority must issue every census co-ordinator with–

(a) such household packs and reply-paid individual packs as it considers necessary for the purpose of the census;

(b) a list that contains the addresses of each

y gofrestr cyfeiriadau sydd wedi'i lleoli yn ardal y cydgysylltydd hwnnw y mae'n rhaid dosbarthu pecyn aelwyd iddynt o dan y rheoliad hwn;

(c) llyfr cofnodion cyfrifo i bob dosbarth cyfrifo yn ardal y cydgysylltydd hwnnw; ac

(ch) unrhyw ddogfennau eraill neu wybodaeth arall y mae'n credu bod eu hangen at ddibenion y cyfrifiad.

(2) Rhaid i'r cydgysylltydd cyfrifiad ddynodi swyddog cyfrifiad i ddosbarthu pecynnau aelwyd a phecynnau unigol wedi'u talu ymlaen llaw i bob dosbarth cyfrifo.

(3) Rhaid i'r cydgysylltydd cyfrifiad roi i bob swyddog cyfrifiad a ddynodir o dan baragraff (2) gopi o'r llyfr cofnodion cyfrifo i'w ddosbarth cyfrifo ac wedyn rhaid i'r swyddog cyfrifiad ddosbarthu–

(a) pecyn aelwyd i bob aelwyd sy'n meddiannu annedd, neu ran o annedd, a grybwyllir yn y llyfr cofnodion cyfrifo;

(b) pecyn unigol wedi'i dalu ymlaen llaw i bob aelwyd sy'n cynnwys etholwr yn nosbarth cyfrifo'r swyddog cyfrifiad nad yw eisoes wedi cael pecyn unigol wedi'i dalu ymlaen llaw ac y mae'r cydgysylltydd cyfrifiad wedi rhoi gwybod amdano i'r swyddog; ac

(c) pecynnau aelwyd a phecynnau unigol wedi'u talu ymlaen llaw (fel y bo'n briodol) i unrhyw aelwydydd neu etholwyr eraill y daw'r swyddog cyfrifiad o hyd iddynt yn ei ddosbarth cyfrifo.

(4) Bydd dyletswydd y swyddog cyfrifiad i ddosbarthu pecyn o dan baragraff (3) wedi'i chyflawni mewn perthynas â phob aelwyd ac etholwr os bydd y swyddog yn trosglwyddo'r pecyn i'r deiliad aelwyd, y cyd-ddeiliad aelwyd neu, os nad oes person o'r fath ar gael, os bydd y swyddog–

(a) yn gadael pecyn gyda pherson cyfrifol sy'n honni ei fod yn gweithredu ar ran y person hwnnw; neu

(b) os nad oes person cyfrifol ar gael, yn gadael y pecyn neu'n ei anfon drwy'r post i'r cyfeiriad yn y llyfr cofnodion cyfrifo neu'r cyfeiriad y rhoddodd y cydgysylltydd cyfrifiad wybod amdano i'r swyddog.

(5) Mewn perthynas â phob pecyn aelwyd neu bob pecyn unigol wedi'i dalu ymlaen llaw a ddosberthir yn unol â'r rheoliad hwn rhaid i'r swyddog cyfrifiad wneud cofnod yn y lle priodol yn y llyfr cofnodion cyfrifo.

(6) Rhaid i bob swyddog cyfrifiad roi'r cofnodion yn y llyfr cofnodion cyfrifo i'r cydgysylltydd cyfrifiad y mae'n rhaid iddo wneud cofnod yn y system olrhain holiaduron, yn unol ag unrhyw gyfarwyddiadau a ddyroddir gan yr Awdurdod, i ddangos bod pecyn wedi'i ddosbarthu i bob cyfeiriad.

household in the address register situated within that co-ordinator's area to which a household pack must be delivered under this regulation;

(c) an enumeration record book for each enumeration district within that co-ordinator's area; and

(d) such other documents or information as it considers necessary for the purpose of the census.

(2) The census co-ordinator must designate a census officer to deliver household packs and reply-paid individual packs to each enumeration district.

(3) The census co-ordinator must supply each census officer designated under paragraph (2) with a copy of the enumeration record book for their enumeration district and the census officer must then deliver–

(a) a household pack to each household occupying a dwelling, or part of a dwelling, mentioned in the enumeration record book;

(b) a reply-paid individual pack to each household that contains an elector in the census officer's enumeration district who has not already received a reply-paid individual pack and of whom the officer has been informed by the census co-ordinator; and

(c) household and reply-paid individual packs (as appropriate) to any other households or electors that are located by the census officer in their enumeration district.

(4) The census officer's duty to deliver a pack under paragraph (3) will be satisfied in respect of each household and elector if the officer hands the pack to the householder, joint householder or, where no such person is available, if the officer–

(a) leaves a pack with a responsible person who claims to act on behalf of that person; or

(b) where no responsible person is available, leaves the pack at or sends it by post to the address in the enumeration record book or the address of which the officer was informed by the census co-ordinator.

(5) In respect of each household or reply-paid individual pack delivered in accordance with this regulation the census officer must make a record in the appropriate place in the enumeration record book.

(6) Each census officer must provide the records in the enumeration record book to the census co-ordinator who must make a record in the questionnaire tracking system, in accordance with such directions as may be issued by the Authority, to show that a delivery has been made to each address.

(7) Ni fydd dim yn y rheoliad hwn yn atal swyddog cyfrifiad rhag cael ei ddynodi i ddosbarthu i fwy nag un dosbarth cyfrifo.

(8) Yn y rheoliad hwn ystyr "llyfr cofnodion cyfrifo" ("*enumeration record book*") yw llyfr sydd wedi'i argraffu gan yr Awdurdod ac sy'n cynnwys–

(a) cyfeiriadau aelwydydd mewn dosbarth cyfrifo y mae'n rhaid i swyddog cyfrifiad ddosbarthu pecynnau aelwyd iddynt â llaw;

(b) y nodau adnabod holiadur ar gyfer pob holiadur H2 sydd i'w ddosbarthu i'r cyfeiriadau hynny; ac

(c) lle i swyddog cyfrifiad gofnodi gwybodaeth am y canlynol–

(i) unrhyw aelwydydd ychwanegol y daw'r swyddog cyfrifiad o hyd iddynt; a

(ii) dosbarthu pob pecyn aelwyd a phob pecyn unigol wedi'i dalu ymlaen llaw.

Dosbarthu pecynnau i sefydliadau cymunedol â llaw

9.–(1) Rhaid i'r Awdurdod ddyroddi i bob cydgysylltydd cyfrifiad–

(a) unrhyw becynnau sefydliad cymunedol, pecynnau unigol rheolaidd a phecynnau unigol wedi'u talu ymlaen llaw y mae'n credu bod eu hangen at ddibenion y cyfrifiad;

(b) rhestr sy'n cynnwys cyfeiriadau pob sefydliad cymunedol sydd wedi'i leoli yn ardal y cydgysylltydd hwnnw y mae'n rhaid dosbarthu pecynnau iddynt o dan y rheoliad hwn;

(c) llyfr cofnodion cyfrifo arbennig i bob dosbarth cyfrifo yn ardal y cydgysylltydd hwnnw; ac

(ch) unrhyw ddogfennau eraill neu wybodaeth arall y mae'n credu bod eu hangen at ddibenion y cyfrifiad.

(2) Rhaid i'r cydgysylltydd cyfrifiad ddynodi swyddog cyfrifiad i ddosbarthu pecynnau sefydliad cymunedol, pecynnau unigol rheolaidd a phecynnau unigol wedi'u talu ymlaen llaw i bob dosbarth cyfrifo.

(3) Rhaid i'r cydgysylltydd cyfrifiad roi i bob swyddog cyfrifiad a ddynodir o dan baragraff (2) gopi o'r llyfr cofnodion cyfrifo arbennig i'w ddosbarth cyfrifo a chyfarwyddo'r swyddog cyfrifiad i ddosbarthu–

(a) pecyn sefydliad cymunedol i bob sefydliad cymunedol a grybwyllir yn y llyfr cofnodion cyfrifo arbennig;

(b) nifer digonol o becynnau unigol rheolaidd a phecynnau unigol wedi'u talu ymlaen llaw i bob un o'r sefydliadau hynny at ddibenion y cyfrifiad; ac

(c) pecynnau sefydliad cymunedol, pecynnau unigol rheolaidd a phecynnau unigol wedi'u

(7) Nothing in this regulation prevents a census officer from being designated to deliver to more than one enumeration district.

(8) In this regulation "enumeration record book" ("*llyfr cofnodion cyfrifo*") means a book printed by the Authority containing–

(a) the addresses of households within an enumeration district to which a census officer must hand deliver household packs;

(b) the questionnaire identification marks for each questionnaire H2 to be delivered to those addresses; and

(c) space for a census officer to record information about–

(i) any additional households located by the census officer; and

(ii) the delivery of each household and reply-paid individual pack.

Delivery of packs to communal establishments by hand

9.–(1) The Authority must issue every census co-ordinator with–

(a) such communal establishment, regular and reply-paid individual packs as it considers necessary for the purpose of the census;

(b) a list that contains the addresses of each communal establishment situated within that co-ordinator's area to which packs must be delivered under this regulation;

(c) a special enumeration record book for each enumeration district within that co-ordinator's area; and

(d) such other documents or information as it considers necessary for the purpose of the census.

(2) The census co-ordinator must designate a census officer to deliver communal establishment packs, regular and reply-paid individual packs to each enumeration district.

(3) The census co-ordinator must supply each census officer designated under paragraph (2) with a copy of the special enumeration record book for their enumeration district and instruct the census officer to deliver–

(a) a communal establishment pack to each communal establishment mentioned in the special enumeration record book;

(b) a sufficient number of regular and reply-paid individual packs to each of those establishments for the purpose of the census; and

(c) communal establishment, regular and reply-paid individual packs to any other communal

talu ymlaen llaw i unrhyw sefydliadau cymunedol eraill yn eu dosbarth cyfrifo y daw'r swyddog cyfrifiad o hyd iddynt.

(4) Bydd dyletswydd y swyddog cyfrifiad i ddosbarthu pecynnau wedi'i chyflawni mewn perthynas â phob sefydliad cymunedol os caiff y pecynnau eu dosbarthu i'r person sydd am y tro â gofal y sefydliad cymunedol neu, os nad oes person o'r fath ar gael, os bydd y swyddog–

(a) yn eu gadael gyda pherson cyfrifol sy'n honni ei fod yn gweithredu ar ran y person hwnnw; neu

(b) os nad oes person cyfrifol ar gael, yn eu gadael yn y cyfeiriad sydd wedi'i nodi yn y llyfr cofnodion cyfrifo arbennig.

(5) Rhaid i'r person y dosbarthir pecynnau iddo o dan baragraff (3) drosglwyddo pecyn unigol rheolaidd neu becyn unigol wedi'i dalu ymlaen llaw i'r canlynol–

(a) pob person sydd fel arfer yn preswylio yn y fangre neu'r llong y mae'n ymddangos iddo eu bod yn gallu llenwi holiadur; neu

(b) i berthynas neu berson arall a fydd yn llenwi'r holiadur ar ran person sy'n dod o dan is-baragraff (a) ond nad yw'n gallu llenwi'r holiadur yn unol â Gorchymyn y Cyfrifiad.

(6) Mewn perthynas â phob pecyn sefydliad cymunedol a phob pecyn unigol rheolaidd neu bob pecyn unigol wedi'i dalu ymlaen llaw a ddosbarthir yn unol â'r rheoliad hwn, rhaid i'r swyddog cyfrifiad wneud cofnod yn y lle priodol yn y llyfr cofnodion cyfrifo arbennig.

(7) Rhaid i bob swyddog cyfrifiad roi'r cofnodion yn y llyfr cofnodion cyfrifo arbennig i'r cydgysylltydd cyfrifiad y mae'n rhaid iddo wneud cofnod yn y system olrhain holiaduron, yn unol ag unrhyw gyfarwyddiadau a ddyroddir gan yr Awdurdod, i ddangos bod pecyn wedi'i ddosbarthu i bob cyfeiriad.

(8) Ni fydd dim yn y rheoliad hwn yn atal swyddog cyfrifiad rhag cael ei ddynodi i ddosbarthu i fwy nag un dosbarth cyfrifo.

(9) Yn y rheoliad hwn ac yn rheoliad 11, ystyr "llyfr cofnodion cyfrifo arbennig" ("*special enumeration record book*") yw llyfr sydd wedi'i argraffu gan yr Awdurdod ac sy'n cynnwys–

(a) cyfeiriad pob sefydliad cymunedol mewn dosbarth cyfrifo y mae'n rhaid i swyddog cyfrifiad ddosbarthu pecynnau sefydliad cymunedol a phecynnau unigol rheolaidd neu becynnau unigol wedi'u talu ymlaen llaw iddynt â llaw;

(b) y nodau adnabod holiadur ar gyfer pob holiadur CE1 sydd i'w ddosbarthu mewn dosbarth cyfrifo;

(c) y nodau adnabod holiadur ar gyfer pob holiadur I2 sydd i'w ddosbarthu i sefydliad

establishments in their enumeration district that are located by the census officer.

(4) The census officer's duty to deliver packs will be satisfied in relation to each communal establishment if the packs are delivered to the person for the time being in charge of the communal establishment or, where no such person is available, if the officer–

(a) leaves them with a responsible person who claims to act on behalf of that person; or

(b) where no responsible person is available, leaves them at the address set out in the special enumeration record book.

(5) The person to whom packs are delivered under paragraph (3) must hand a regular or reply-paid individual pack to–

(a) every person who is usually resident at the premises or vessel who appears to them to be capable of completing the questionnaire; or

(b) to a relative or other person who will complete the questionnaire on behalf of a person who is covered by sub-paragraph (a) but is incapable of completing the questionnaire in accordance with the Census Order.

(6) In respect of each communal establishment and regular or reply-paid individual pack delivered in accordance with this regulation, the census officer must make a record in the appropriate place in the special enumeration record book.

(7) Each census officer must provide the records in the special enumeration record book to the census co-ordinator who must make a record in the questionnaire tracking system, in accordance with such directions as may be issued by the Authority, to show that a delivery has been made to each address.

(8) Nothing in this regulation prevents a census officer from being designated to deliver to more than one enumeration district.

(9) In this regulation and in regulation 11, "special enumeration record book" ("*llyfr cofnodion cyfrifo arbennig*") means a book printed by the Authority containing–

(a) the addresses of each communal establishment within an enumeration district to which a census officer must hand deliver communal establishment and regular or reply paid individual packs;

(b) the questionnaire identification marks for each questionnaire CE1 to be delivered within an enumeration district;

(c) the questionnaire identification marks for each questionnaire I2 to be delivered to a specific

cymunedol penodol mewn dosbarth cyfrifo; ac

(ch) lle i swyddog cyfrifiad gofnodi gwybodaeth am y canlynol–

(i) unrhyw sefydliadau cymunedol ychwanegol y daw'r swyddog cyfrifiad o hyd iddynt;

(ii) dosbarthu pob pecyn sefydliad cymunedol, pob pecyn unigol rheolaidd a phob pecyn unigol wedi'i dalu ymlaen llaw; a

(iii) casglu holiaduron.

Dychwelyd holiaduron aelwydydd ac etholwyr

10.–(1) Rhaid i bob person rhagnodedig y mae pecyn aelwyd wedi'i ddosbarthu iddo neu y derbyniwyd dosbarthiad ar ei ran o dan y Rheoliadau hyn, drannoeth diwrnod y cyfrifiad neu cyn gynted wedyn ag y bo'n rhesymol ymarferol–

(a) llenwi'r copi o holiadur H2 neu holiadur H2W a gynhwyswyd yn y pecyn, ei osod yn yr amlen wedi'i thalu ymlaen llaw a ddarparwyd ac anfon yr holiadur i'r Awdurdod drwy'r post; neu

(b) dychwelyd yr wybodaeth y gofynnir amdani gan holiadur H2 neu holiadur H2W yn electronig drwy ddefnyddio unrhyw system electronig a ddarperir gan yr Awdurdod at y diben hwn a hynny yn unol â'r cyfarwyddiadau a gynhwysir yn y pecyn sy'n cyd-fynd â'r holiadur.

(2) Caiff pob etholwr y mae pecyn unigol wedi'i dalu ymlaen llaw wedi'i ddosbarthu iddo neu y derbyniwyd dosbarthiad ar ei ran o dan y Rheoliadau hyn, drannoeth diwrnod y cyfrifiad neu cyn gynted wedyn ag y bo'n rhesymol ymarferol–

(a) llenwi'r copi o holiadur I2 neu holiadur I2W a gynhwyswyd yn y pecyn, ei osod yn yr amlen wedi'i thalu ymlaen llaw a ddarparwyd ac anfon yr holiadur i'r Awdurdod drwy'r post; neu

(b) dychwelyd yr wybodaeth y gofynnir amdani gan holiadur I2 neu holiadur I2W yn electronig drwy ddefnyddio unrhyw system electronig a ddarperir gan yr Awdurdod at y diben hwn a hynny yn unol ag unrhyw wybodaeth ychwanegol a gynhwysir yn y pecyn sy'n cyd-fynd â'r holiadur.

(3) Cyn gynted â phosibl ar ôl i bob holiadur I2 neu I2W, neu H2 neu H2W sydd wedi'u llenwi ddod i law'r Awdurdod, rhaid i'r Awdurdod wneud cofnod yn y system olrhain holiaduron i ddangos bod yr holiadur perthnasol wedi'i ddychwelyd.

(4) Ar ôl i holiadur I2 neu I2W, neu H2 neu H2W sydd wedi'u llenwi ddod i law'r Awdurdod yn

communal establishment in an enumeration district; and

(d) space for a census officer to record information about–

(i) any additional communal establishments located by the census officer;

(ii) the delivery of each communal establishment, regular and reply-paid individual pack; and

(iii) the collection of questionnaires.

Return of questionnaires from households and electors

10.–(1) Every prescribed person to whom a household pack has been delivered or on whose behalf delivery was taken under these Regulations must, on the day after census day or as soon after as is reasonably practicable–

(a) complete the copy of questionnaire H2 or questionnaire H2W included in the pack, place it in the reply-paid envelope provided and send the questionnaire to the Authority by post; or

(b) return the information requested by questionnaire H2 or questionnaire H2W electronically using such an electronic system as the Authority may provide for this purpose and in accordance with the instructions included in the accompanying pack.

(2) Every elector to whom a reply-paid individual pack has been delivered or on whose behalf delivery was taken under these Regulations may, on the day after census day or as soon after as is reasonably practicable–

(a) complete the copy of questionnaire I2 or questionnaire I2W included in the pack, place it in the reply-paid envelope provided and send the questionnaire to the Authority by post; or

(b) return the information requested by questionnaire I2 or questionnaire I2W electronically using such an electronic system as the Authority may provide for this purpose and in accordance with any additional information included in the accompanying pack.

(3) As soon as possible after each completed questionnaire I2 or I2W, or H2 or H2W has been received by the Authority, the Authority must make a record in the questionnaire tracking system to show that the relevant questionnaire has been returned.

(4) When a completed questionnaire I2 or I2W, or H2 or H2W has been received by the Authority

electronig, rhaid i'r Awdurdod sicrhau bod cadarnhad ei fod wedi dod i law yn cael ei anfon yn electronig at y person sy'n dychwelyd yr holiadur.

(5) Pan fo penodai yn fodlon, ar ôl siarad â pherson rhagnodedig at ddibenion erthyglau 5(1) neu (3) o Orchymyn y Cyfrifiad, nad yw'r person rhagnodedig o dan sylw–

(a) yn gallu llenwi holiadur a'i ddychwelyd; a

(b) yn alluog i awdurdodi unrhyw berson i weithredu ar ei ran,

yna caiff y penodai, yn unol â chyfarwyddiadau a ddyroddir gan yr Awdurdod, wneud ymholiadau ynghylch y manylion y byddai'n ofynnol o dan Orchymyn y Cyfrifiad i'r person rhagnodedig hwnnw eu rhoi a chofnodi'r atebion i'r ymholiadau hynny y caniateir iddynt gael eu defnyddio at ddibenion y cyfrifiad.

(6) Cyn gynted â phosibl ar ôl i benodai wneud cofnod yn unol â pharagraff (5), rhaid i'r Awdurdod wneud cofnod yn y system olrhain holiaduron i ddangos bod cofnod o dan baragraff (5) wedi'i wneud mewn perthynas â'r person rhagnodedig hwnnw.

Dychwelyd holiaduron sefydliadau cymunedol

11.–(1) Rhaid i bob person rhagnodedig y mae pecynnau wedi'u dosbarthu iddo mewn sefydliad cymunedol neu y derbyniwyd dosbarthiad ar ei ran o dan y Rheoliadau hyn lenwi holiadur CE1 neu holiadur CE2W drannoeth diwrnod y cyfrifiad neu cyn gynted wedyn ag y bo'n rhesymol ymarferol.

(2) Rhaid i bob person rhagnodedig y trosglwyddwyd pecyn unigol rheolaidd neu becyn unigol wedi'i dalu ymlaen llaw iddo o dan reoliad 9(4) drannoeth diwrnod y cyfrifiad neu cyn gynted wedyn ag y bo'n rhesymol ymarferol–

(a) llenwi holiadur I2 neu holiadur I2W, ei osod yn yr amlen ffurflen unigol a ddarparwyd a'i throsglwyddo i'r person sy'n llenwi holiadur CE1 neu holiadur CE2W mewn perthynas â'r sefydliad cymunedol;

(b) llenwi holiadur I2 neu holiadur I2W, ei osod yn yr amlen wedi'i thalu ymlaen llaw (os oes un wedi'i darparu) ac anfon yr holiadur i'r Awdurdod drwy'r post; neu

(c) dychwelyd yr wybodaeth y gofynnir amdani gan holiadur I2 neu holiadur I2W yn electronig drwy ddefnyddio unrhyw system electronig a ddarperir gan yr Awdurdod at y diben hwn a hynny yn unol ag unrhyw wybodaeth ychwanegol a gynhwysir yn y pecyn sy'n cydfynd â'r holiadur.

